# Crynodeb Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangywer

| Dyddiad | Datgan Buddiant | Presennol | Penderfyniadau |
|---|---|---|---|
| 9/1/23 | Neb | **Presennol:** Geraint Roberts (Cadeirydd), Clwyd Davies Is-Gadeirydd) Emyr Jones, Gwyn Roberts, Dafydd Williams<br>Cynghorydd Alan Jones Evans, Lis Puw (Clerc)<br><br>Ymddiheuriadau: Eleri Jones a Tyly Roberts. | Cynllunio:<br>**NP5/70/L4B** Bryniau Golau, Llangywer: Newidiadau i'r "Ystafell Gemau" presennol, i gynnwys dymchwel estyniadau, amnewid talcen do a ffenestr to llusern gyda tho brig newydd a thalcenni gwydr – cymeradwywyd.<br><br>**NP5/70/LB83F a NP5/70/83E** Ffynnon Gywer – codi sied amaethyddol. Nodwyd bod y sied yn fawr ond bod addewid iddi gael ei sgrinio gan lystyfiant. Cymeradwywyd.<br><br>Torri gwair y fynwent: ystyriwyd tendrau ar gyfer 2003, 2004, 2005. Cytunwyd i gynnig y gwaith i Sion W Jones, Cae Gadlas, Y Bala.<br><br>Pwyllgor Cyllid: Cytunwyd i ofyn am Braesept o £4,500 am y flwyddyn 2023-24.<br><br>Cytunwyd i dalu anfonebau:<br>• Swyddfa + Stampiau £330<br>• Gwefan £250<br>• Cyngor Cymuned Llanuwchllyn 1 pecyn o bapur £4.88<br>• I W Hughes – torri gwrychoedd y fynwent £84 (cynnwys TAW)<br>Nodwyd y cafwyd caniatâd y Cynghorwyr cyn y cyfarfod i dalu am dorri gwair ar frys (£900), ac am hysbyseb Cytundeb Torri Gwair yn "Pethe Penllyn" (£19.37).<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf: 13/3/22 |